**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

19 Gorffennaf 2021

Annwyl Ms Rathbone

**Ystyried y Gymraeg yng ngwaith y Pwyllgor**

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ddechrau cyfnod y chweched Senedd i'ch annog i sicrhau y bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i waith.

Yn *Strategaeth Cymraeg 2050* cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r ganran sy'n siarad y Gymraeg yn ddyddiol i 20%. Mae'r strategaeth yn cynnwys cerrig milltir i fesur llwyddiant ei chyflawniad, gyda'r garreg filltir gyntaf yn 2021 a'r nesaf yn 2026. Yng nghyfnod y Chweched Senedd bydd raid bwrw ati o ddifri i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif am y graddau y mae'r Strategaeth yn cael ei chyflawni a'r cerrig milltir yn cael eu cyrraedd. Yn hynny o beth mae'n hollbwysig prif ffrydio'r Gymraeg i ddeddfwriaeth a pholisi ehangach ac mae'n bryder gennyf nad oes digon o graffu ar effaith deddfwriaeth a pholisi ehangach ar y Gymraeg yn gyffredinol. Yn wir, nododd Eluned Morgan, y Gweinidog blaenorol dros Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, mewn sesiwn graffu:

… I would suggest that actually, rather than just holding me to account when it comes to the budget, […] that actually you ask the other Ministers, who've got huge amounts of money, what they're doing within their budgets in relation to the Welsh language."
(Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, Cymraeg a Chyfathrebu, 25 Chwefror 2021)

Pwysleisiaf na ddylid ystyried y Gymraeg yn fater diwylliannol yn unig gan ei bod yn iaith fyw ym mhob un o gymunedau Cymru ac yn brif iaith yn nifer ohonynt. Mae'r cymunedau

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

hynny yn wynebu nifer o heriau cymdeithasol ac economaidd sydd yn eu tro yn herio hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny.

Yng nghyd-destun cylch gwaith y pwyllgor ar waith teg, ym mis Ebrill eleni ymatebodd y Comisiynydd i ymgynghoriad y Llywodraeth ar Fil Drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Ymhlith agweddau eraill ar y Bil, trafodwyd diffiniad gwaith teg adroddiad Gwaith Teg Cymru (2019), lle disgrifia'r Comisiwn Gwaith Teg chwe phrif nodwedd. O'r rhain, tynnodd y Comisiynydd sylw yn benodol at lais y cyflogai; y cyfle i dyfu ac i gamu ymlaen; amgylchedd gwaith cynhwysol a hawliau cyfreithiol yn cael eu parchu. Mae sicrhau'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg neu i ennill sgiliau iaith newydd yn hollbwysig ar gyfer gwaith teg. Cyfeiriwyd yn ogystal at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd hefyd yn rhan o gylch gorchwyl y pwyllgor. Mae'r Ddeddf Llesiant yn cynnwys y nod 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' ac rwyf yn gobeithio y bydd y nod hwnnw yn tanategu gwaith y pwyllgor yn ystod cyfnod y Senedd hwn.

Cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen maniffesto ar gyfer etholiad 2021[1] yn datgan bod angen ystyried amrediad eang o ffactorau sy'n effeithio ar y Gymraeg. Mae'n nodi ei bod yn hollbwysig i'r Llywodraeth newydd ymrwymo i roi sefydlogrwydd i'r strwythurau a'r hawliau sydd eisoes yn bodoli'n sgil Mesur y Gymraeg, yn ogystal â chysoni profiadau siaradwyr Cymraeg. Y ffordd o wneud hynny yw trwy safonau'r Gymraeg. Rhain yw'r dyletswyddau gaiff eu gosod ar sefydliadau cyhoeddus i ddefnyddio ac ystyried y Gymraeg, gan sicrhau cysondeb ac ansawdd gwasanaethau yn yr iaith. Er mwyn galluogi'r Comisiynydd i osod safonau, mae'n rhaid i'r Llywodraeth baratoi safonau a chyflwyno rheoliadau. Daeth y set ddiweddaraf o reoliadau i rym ym mis Mehefin 2018. Rydym wedi cyflwyno rhaglen i'r Llywodraeth ei hystyried ar gyfer symud y gwaith hwn yn ei flaen cyn gynted â phosibl. Byddai'n addas i'r Pwyllgor hefyd sicrhau bod y rhaglen hon yn cael ei gweithredu cyn gynted ag y bo modd er mwyn cadarnhau hawliau siaradwyr Cymraeg.

Gobeithio y byddwch yn cadw'r sylwadau hyn mewn cof wrth i chi ystyried gwaith y pwyllgor i'r dyfodol. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith hwnnw ac edrychwn ymlaen at gyfrannu ato.

Yr eiddoch yn gywir

Gwenith Price
**Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg**

[1] Maniffesto (positif.wales)